Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ymgynghoriad gwasanaethau ar-lein

1. Beth yw Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Asesiad Effaith Cydraddoldeb yw un o'r ffyrdd y mae'r Comisiwn Elusennau yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ymrwymiadau statudol i ddarparu cydraddoldeb cyfle. Mae'n broses sy'n ein galluogi i ymgynghori ar faterion penodol i asesu eu heffaith ar ein cwsmeriaid. Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i'r safonau uchaf o ran gwasanaeth cwsmeriaid, i'n holl gwsmeriaid, a rhaid i'n gwasanaethau esblygu gyda hyn mewn golwg.

2. Pam ein bod ni'n ymgynghori?

Mae'r Comisiwn Elusennau eisoes yn cynnig dewis ar-lein ar gyfer nifer o'i wasanaethau ac mae ystod a soffistigedigrwydd ein cynnig ar-lein yn parhau i gynyddu. Ar hyn o bryd mae dulliau mwy traddodiadol o ddefnyddio gwasanaeth penodol ar gael o hyd, er enghraifft ffurflen bapur.

Yn unol â safbwynt polisi[1] cyhoeddedig y Llywodraeth, ac yn yr un modd ag adrannau eraill y llywodraeth, mae'r Comisiwn yn awr yn ceisio symud i sefyllfa lle bydd y rhan fwyaf o'n rhyngwyneb gyda chwsmeriaid yn digwydd ar-lein. Mae hyn yn golygu y bydd rhai dulliau copi caled traddodiadol o wneud busnes yn cael eu dirwyn i ben.

Mae nifer o fanteision i'r cwsmer, y Comisiwn a'r amgylchedd o symud tuag at wasanaethau ar-lein. Ond, bydd defnydd cynyddol o ddewisiadau ar-lein a dirwyn rhai o'r dulliau gweithredu cyfredol i ben yn cael effaith ar ein cwsmeriaid.

3. At bwy yr anelwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

Mae prif ffocws yr Asesiad Effaith hwn ar ymddiriedolwyr a gweithwyr elusennau sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u cynghorwyr proffesiynol.

4. Pa effeithiau sydd wedi cael eu dynodi?

Ni ddarganfu ein sgrinio cychwynnol unrhyw effeithiau negyddol o ran rhyw, hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol, nag ar ofalwyr.

Ond, rydym wedi dynodi rhai problemau ac effeithiau posibl o ran cyfathrebu, boed hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad Saesneg yw'r iaith gyntaf neu anawsterau cyfathrebu eraill yn ymwneud ag anabledd ag oedran.

1 ee Adroddiad Digital Britain a Putting the Front Line First

Mae rhai problemau hefyd ynglŷn â pherchenogaeth yr unigolyn ar dechnoleg neu fynediad ato; efallai na fydd ymddiriedolwr unigol neu ohebydd yn medru cael mynediad at y rhyngrwyd neu ei defnyddio oherwydd:

- Nid ydynt yn berchen ar gyfrifiadur
- Mae ganddynt fynediad at gyfrifiadur ond nid ydynt yn gwybod sut/nid ydynt erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd. Dynodwyd oedran fel problem arbennig yma gyda'r rhyngrwyd yn cael ei gweld fel rhywbeth sy'n fwy o her i ddefnyddwyr hŷn.

Fe ddylid nodi, fodd bynnag, bod yr Asesiad Effaith hwn yn bennaf yn ymwneud ag effeithiau posibl ar grwpiau sydd â nodweddion cyffredin a ddiogelir dan y gyfraith ac y mae gennym ddyletswyddau penodol i'w cyflawni iddynt fel darparwr gwasanaeth sector preifat. Nid yw hyn yn golygu na fyddem yn chwilio am atebion o ran help a chyfarwyddyd pan fyddwn yn dynodi problemau yn ymwneud â diffyg offer yn y cartref ar gyfer cael mynediad at wasanaethau ar-lein er enghraifft. Ond ein prif ffocws yw dynodi effeithiau, a phan fydd yr effeithiau hynny yn debygol o fod yn negyddol i'r grwpiau a ddynodwyd, edrych ar ddulliau o leddfu'r broblem pan allwn ni wneud hynny.

Mae'r Asesiad Effaith hwn yn nodi'r effeithiau a ddynodwyd hyd yn hyn, ynghyd â'r trefniadau sydd wedi eu gweithredu, neu a gynllunnir, i'w lleddfu.

Byddem yn croesawu barn cwsmeriaid, gyda thystiolaeth i gefnogi, ar y materion hyn, i sefydlu:

- a ydym wedi dynodi'r holl broblemau cydraddoldeb allweddol, o ran darparu gwasanaethau ar-lein;
- a ydym wedi ymdrin yn llwyddiannus â lleddfu unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb sy'n codi neu a oes gennym gynlluniau yn eu lle a fydd yn gwneud hynny yn effeithiol;
- a oes unrhyw broblemau eraill y dylem ymdrin â hwy eto, i sicrhau wrth i'r Comisiwn symud tuag at ragor o ddefnydd o wasanaethau ar-lein bod ein holl gwsmeriaid yn parhau i fedru defnyddio ein holl wasanaethau; a
- a oes unrhyw effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i gynnydd mewn gwasanaethau ar-lein.

Gweler adran 18 am rai cwestiynau allweddol.

5. Sut mae'r broses ymgynghori yn gweithio?

Mae'r broses ymgynghori yr ydym yn ei dilyn yn unol â'r Meini Prawf Ymgynghori yn y Cod Ymarfer a weithredir gan yr Adran Busnes Blaengaredd a Sgiliau. Os ydych yn dymuno cael mynediad at y fersiwn lawn o'r Cod, gallwch ei gael yn:
http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/consultation-guidance

Mae Adran 19 o'r ddogfen hon yn rhoi mwy o fanylion ar sut i gofrestru eich barn. Sylwer y gall gwybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn adran 20.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am 12 wythnos. Y dyddiad olaf i sylwadau gael eu codi gyda'r Comisiwn Elusennau yw 29 Hydref. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd.

Defnyddir yr adborth fel sail ar gyfer y ffordd y bydd y Comisiwn Elusennau yn gweithredu ein rhaglen gwasanaethau ar-lein.

6. Ynglŷn â'r Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau sy'n cofrestru a rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cynnig cyngor iddynt ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfarwyddyd i'w helpu i fodloni eu hymrwymiadau cyfreithiol a rhedeg mor effeithiol â phosibl. Rydym hefyd yn cadw'r Gofrestr elusennau ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am bob un o'r miloedd o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.

Mae dros 180,000 o elusennau yng Nghymru a Lloegr ac maent yn amrywio o grwpiau bychain lleol i elusennau mawr iawn yn gweithredu ar raddfa ryngwladol. Nid yw'n ofynnol i elusennau bach iawn gydag incwm o lai na £5k y flwyddyn gofrestru ac mae graddfa symudol o ran gofynion cyfrifyddol ac adrodd lle disgwylir am ragor gan elusennau mwy.

7. Datblygu ar-lein tu allan i'r Comisiwn Elusennau

Mae nifer gynyddol o wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn awr yn cael eu defnyddio naill ai yn gyfan gwbl neu yn rhannol ar-lein. Nid yw'r papur hwn yn ceisio darparu dadansoddiad manwl o'r duedd hon, sydd â digon wedi ei ysgrifennu amdani, er bod cipolwg cryno i roi cyd-destun yn berthnasol.

Yn y byd masnachol mae yswiriant, bancio, gwestai/trefnwyr teithiau, a chwmnïau'r cyfleustodau oll yn gweithredu ar-lein a gellir siopa bwyd sylfaenol hefyd gydag enwau amlwg ynghyd â chyflenwyr llai, mwy arbenigol. Mae'r dewis o fedru gweithredu ar-lein wedi symud o fod ar y cyrion i'r canol ac mae'n gynyddol yn cael ei weld yn ffordd arferol o gyflawni llawer iawn o drafodion. Mae 58% o oedolion y Deyrnas Unedig yn awr yn prynu nwyddau neu wasanaethau ar-lein[2].

Mae disgwyl hefyd y bydd y dewis ar-lein yn rhoi rhai manteision i'r cwsmer – prisiau rhatach, cyfraddau llog mwy ffafriol, dewisiadau 'ar y we yn unig'. Cymerir hefyd y bydd gwasanaeth cyflymach, sydd ar gael 24/7 ar gael.

Yn y byd cyhoeddus, gellir cael mynediad at basbortau, trwyddedau gyrru, ffurflenni treth a phob math o wasanaethau llywodraeth leol a chenedlaethol ar-lein. Dim ond ar-lein y mae rhai dewisiadau ar gael, ee llenwi ffurflenni treth corfforaethol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Mae'r e-isadeiledd yn y Deyrnas Unedig yn parhau i dyfu. Mae 38.8 miliwn yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig yn awr[3] ac mae 70% o aelwydydd ar-lein[4]. Yn 2008 roedd hi'n cael ei hystyried yn hanfodol i aelwydydd gyda phlant o oedran ysgol gael cyfrifiadur, erbyn hyn mae'n cael ei hystyried yn hanfodol i'r rhan fwyaf o aelwydydd.[5] Ond mae tua 10 miliwn o oedolion sydd heb erioed gael mynediad ar y rhyngrwyd [6].

2 Manifesto for a Networked Nation
3 Cwmni Mesur y Deyrnas Unedig Ar-lein
4 Arolwg ONS 2009
5 Gweler Safon Gofynnol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn 2010-Sefydliad Joseph Rowntree
6 Manifesto for a Networked Nation

8. Hanes yn y Comisiwn

Fe roddodd y Comisiwn Elusennau'r Gofrestr Elusennau ar-lein yn Ebrill 1996 ac ers hynny gwelwyd cynnydd blynyddol yn ystod y deunydd sydd ar gael i'w weld neu ei lawr lwytho.

Cynigiwyd dewisiadau rhyngweithiol ar-lein yn gynyddol gyda ffurflenni poblogaidd ar gael i'w hargraffu yn gyntaf ac yna i'w cyflwyno ar-lein.

Mae gennym yn awr ddewisiadau ar-lein ar gyfer Ffurflenni/Cyfrifon Blynyddol, ceisiadau cofrestru fel elusen, ac amrywiaeth o ddewisiadau a ddefnyddir yn aml, ee newidiadau i ddogfennau llywodraethol a diddymu.

Mae'r dewisiadau hyn yn boblogaidd ac mae nifer helaeth yn eu defnyddio. Er enghraifft, ar adeg ysgrifennu hwn mae 80% o'r ffurflenni blynyddol yn cael eu cyflwyno ar-lein ac mae 68% o'r ceisiadau am gofrestru elusen yn cael eu gwneud ar-lein; mae'r defnydd yn cynyddu trwy'r amser.

9. Y cam nesaf

Mae'r Comisiwn Elusennau yn awr yn dymuno gwneud y dewis ar-lein fel y prif gyfrwng o gynnal busnes gyda ni ac i symud oddi wrth y dewisiadau eraill traddodiadol.

Ar gyfer mwyafrif helaeth y cwsmeriaid, sydd eisoes yn defnyddio'r dewis ar-lein, ni fydd y dewis hwn yn cael unrhyw effaith. Ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt yn defnyddio'r dewis ar-lein bydd yn gofyn am newid arferion. Gall gallu rhai grwpiau, sydd â nodweddion cyffredin sy'n cael eu diogelu, i wneud y newid hwnnw gael ei atal a nod yr asesiad hwn yw ceisio dynodi'r anawsterau a chynnig atebion.

10. Ymrwymiadau statudol

Rhestrir y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb berthnasol yn Atodiad A o'r ddogfen hon.

11. Proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Yn fuan ar ôl penderfynu symud rhagor o wasanaethau'r Comisiwn Elusennau ar-lein, cynhaliwyd sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol. Dynododd y sgrinio hwn yr angen am ymgynghori yn fwy eang.

12. Tystiolaeth a ystyriwyd, canfyddiadau cychwynnol, cwestiynau allweddol

Wrth gynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae'r Comisiwn Elusennau wedi ystyried amrywiaeth o ddata a chanfyddiadau ymchwil o fewn y Comisiwn ac a gynhaliwyd gan adrannau eraill y llywodraeth a chyrff ymchwil/ystadegol.

O ganlyniad i hyn i gyd, y prif broblemau cydraddoldeb a ddynodwyd hyd yn hyn yw:

- Cyfathrebu /iaith (a all fod yn gysylltiedig ag anabledd neu ethnigrwydd)
- Anabledd
- Oedran

Mae materion ategol hefyd o ran perchenogaeth ar gyfrifiaduron a/neu ddiffyg sgiliau neu hyder.

13. Ffynonellau help cyffredinol

Cyn edrych ar bob problem yn ei thro, mae'n werth ystyried rhai o'r adnoddau sydd ar gael i helpu pob unigolyn nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur, neu sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio'r rhyngrwyd am ba bynnag reswm. Mae'r rhain yn berthnasol ar draws yr holl ystod o broblemau.

Mae help ar gael i holl ddinasyddion y Deyrnas Unedig o nifer o ffynonellau, er enghraifft gall mynediad i'r rhyngrwyd yn aml fod ar gael mewn:

- Llyfrgelloedd lleol
- Canolfannau cymunedol
- Ysgolion
- Canolfannau UKOnline – mae 6000 o'r rhain yn awr.

Mae llawer o'r uchod yn rhoi cyngor a chefnogaeth yn ychwanegol at y mynediad sydd am ddim yn aml.

Mae rhai darparwyr masnachol yn cynnig mynediad i'r rhyngrwyd, ee caffi rhyngrwyd.

Mae'r fenter RaceOnline 2012 yn anelu at gael miliwn yn fwy o ddefnyddwyr ar-lein erbyn 2012 ac mae'n cael cyrff i fod yn bartneriaid iddynt i gyflawni hyn. Mae pecynnau offer ar gyfer cyrff cefnogi i helpu eraill i fynd ar-lein ac mae nifer gynyddol o raglenni a mentrau fel Everybody Online ac wythnos Get Online.

Mae natur gyfweithiol gwaith elusennol hefyd yn bwysig. Nid yw ymddiriedolwyr yn gweithio yn ynysig, y lleiafswm ar unrhyw gorff ymddiriedolwyr yw tri unigolyn ac mae'r rhan fwyaf o gyrff ymddiriedolwyr yn fwy. Os bydd un neu fwy o'r ymddiriedolwyr yn cael anawsterau yna gellir gofyn i ymddiriedolwyr eraill wneud cyflwyniadau ar-lein ar eu rhan i gyd. Mae'r holl ymddiriedolwyr yn gweithredu fel corff ac yn union fel y byddai un ymddiriedolwr, ar un adeg yn cael y dasg o ysgrifennu at y Comisiwn ar ran y lleill yna yn awr gellir gofyn iddo ef/hi ddefnyddio gwasanaeth ar-lein.

Mae llawer o elusennau eu hunain ar-lein ac mae gan y rhan fwyaf o elusennau sy'n cynnal swyddfa neu yn cyflogi staff ddigon o fynediad rhyngrwyd yn barod.

Mae'n cael ei gydnabod yn eang bod cefnogaeth ar y ffôn i unigolyn sy'n defnyddio'r dewis ar-lein yn rhan bwysig o unrhyw wasanaeth ar-lein. Bydd y Comisiwn Elusennau yn parhau i redeg canolfan gyswllt a darparu cefnogaeth ar y ffôn. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth cyfieithu sy'n bodoli i gwsmeriaid nad ydynt yn medru siarad Saesneg a'r gwasanaeth Ffôn testun ar gyfer galwyr sy'n cael trafferth clywed a siarad.

14. Iaith

Ar hyn o bryd yr unig ofyn cyfreithiol o ran iaith yw y dylai'r Comisiwn Elusennau ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith ychwanegol at y Saesneg; ac mae cyfarwyddeb UE ar wahân yn annog (ond nid yn gorfodi) y defnydd o ieithoedd sy'n gynhenid i wladwriaethau unigol yr UE.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu cyfieithiadau Cymraeg o'n cyfarwyddyd craidd a deunydd arall sydd ag apêl eang (mae'r ystod lawn o gyfarwyddyd 'CE' ar gael yn Gymraeg). Mae rhai o'n staff yn siarad Cymraeg, gall staff ein canolfan gyswllt gymryd galwadau yn Gymraeg, a gallwn ohebu yn Gymraeg. Sylwer bod gennym swyddfa Cymru hefyd yng Nghasnewydd.

Cyn belled ag y mae ieithoedd nad ydynt yn gynhenid i'r Deyrnas Unedig yn y cwestiwn, nid oes gwybodaeth ar y niferoedd o gwsmeriaid y Comisiwn y mae eu gafael ar y Saesneg yn annigonol iddynt ymwneud â ni. Mae ein canolfan gyswllt yn darparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn yn cynnwys 150 o ieithoedd lle gellir darparu cyfieithwyr yn gyflym iawn.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, o angenrheidrwydd, yn ei siarad yn wael. Na chwaith y bydd yr angen i ymwneud â ni ar-lein yn creu problem, lle nad oedd un yn bodoli o'r blaen - mae cwsmer y bydd ei anawsterau yn deillio o Saesneg llafar neu ysgrifenedig gwael yn debygol o brofi'r un anhawster gyda chysylltiadau ar bapur ag y bydd ef/hi gyda'r dewis ar-lein.

Mae amrywiaeth o atebion ar gael i gwsmeriaid y mae eu gafael ar Saesneg ysgrifenedig a/neu lafar yn ei gwneud yn anodd iddynt, ee gweithio gyda chydweithiwr, ffrind neu aelod o'r teulu gyda gwell dealltwriaeth o'r Saesneg, i lenwi neu gyflwyno ffurflenni ar-lein.

Nid oes unrhyw gynlluniau i wneud gwasanaethau ar-lein ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg: byddai gwneud hynny yn ddefnydd anghymesur o arian cyhoeddus a byddai, beth bynnag, yn groes i bolisi'r Llywodraeth (lle mae'r pwyslais ar annog y rhai a ymfudodd yn ddiweddar i ddysgu a defnyddio Saesneg fel eu prif iaith wrth ymdrin â chyfrifoldebau yn y sector cyhoeddus).

15. Anabledd

Cododd y sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol rai cwestiynau pwysig ar effaith y symudiad tuag at wasanaethau ar-lein ar ein cwsmeriaid anabl. Mae'r ddeddfwriaeth Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn unigolyn anabl wrth ddarparu gwasanaethau, pan fydd yr effaith yn cyfateb i wneud defnyddio'r gwasanaeth hwnnw yn amhosibl neu yn afresymol o anodd. Mewn achosion o'r fath, mae dyletswydd i gymryd camau rhesymol i newid polisi, arfer neu weithdrefn fel na fydd bellach yn cael yr effaith hwnnw. Mae dyletswydd hefyd i wneud trefniadau dros dro, pan na fydd ein gwasanaethau ar gyfer pobl anabl ar gael. Mae'n anghyfreithlon hefyd gwahaniaethu yn erbyn y rhai sydd ag anabledd neu nad oes ganddynt anabledd.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu ef/hi i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae'n anodd cael ffigyrau pendant gan fod yr amcangyfrifon yn amrywio, ond mae'n ymddangos bod rhywle rhwng 15% a 20% o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn anabl.

Ni fydd rhai anableddau, gan ddibynnu ar eu natur a'u difrifoldeb, yn cael dim neu fawr iawn o effaith ar allu'r cwsmer i gael mynediad at wasanaeth, boed ar bapur neu ar-lein. Mae'r symudiad tuag at wasanaethau ar-lein yn fwyaf tebygol o effeithio ar unigolion gyda'r anableddau canlynol:

- Nam Gweledol, a allai effeithio ar eu gallu i ddeall a llenwi ffurflenni yn gywir a rhwydd.
- Crydcymalau, a allai, os bydd y cyflwr wedi datblygu ac yn effeithio ar y breichiau, gael effaith ar y gallu i ddefnyddio beiro neu gyfrifiadur.
- Amrywiol ffurfiau ar anabledd dysgu, a allai gael effaith ar y gallu i ddeall a defnyddio cyfrifiaduron.
- Ac mae gan tua 4-10% o'r boblogaeth yn gyffredinol ddyslecsia/ ddyspracsia.

Mae anableddau eraill a all gael effaith ar werth yr help yr ydym yn ei ddarparu fel arfer – er enghraifft:

- Pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u clyw – a all ei gwneud hi'n anos iddynt dderbyn help a chefnogaeth ar y ffôn.
- Pobl gydag amrywiaeth o namau corfforol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt deithio neu i fynd i mewn i adeiladau neu o'u cwmpas, ac felly mae'n anos iddynt fynd i ganolfan ar-lein neu debyg am help.

Mae gan y Comisiwn Elusennau gyfleuster 'typetalk' sy'n rhoi mynediad at gynghorwyr y Comisiwn ar gyfer galwyr sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd, ac mae'n cynnig dolen ar ein gwefan i ddefnyddwyr lawr lwytho Browsealoud, offeryn am ddim sy'n galluogi defnyddwyr i roi llais i'n gwefan.

Mae rhai cwsmeriaid anabl yn croesawu'r rhyngrwyd, fel eu cyfrwng i gyrraedd annibyniaeth ac, yn arbennig i'r rhai sydd â phroblemau symud, fel eu dolen gyswllt â'r byd tu allan. Awgryma'r adborth bod y problemau yn ymwneud â gwneud y rhyngrwyd mor rhwydd iddynt ei defnyddio â phosibl, gyda'r gwasanaeth yn medru cael ei addasu i sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl a'r gallu i'w addasu ar gyfer eu hanghenion penodol.

Er bod rhai defnyddwyr anabl yn croesawu'r rhyngrwyd, maent yn cael anhawster i'w defnyddio, er gwaethaf y swyddogaethau mynediad ac eraill y mae darparwyr wedi sicrhau eu bod ar gael. Yn aml y rheswm am hyn (ond nid bob amser) yw offer y defnyddiwr ei hun, sydd weithiau yn hen, ac felly yn creu anawsterau i'r defnyddwyr hynny wrth ryngweithio gyda gwasanaethau ar-lein penodol.

Hyd yn oed gyda'r holl nodweddion hygyrchedd y gall cyflenwr gwasanaeth ar-lein eu darparu, a'r offer diweddaraf gan y defnyddiwr, fe ellir cael anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaeth ar-lein. Mae'r rhain yn codi yn bennaf oherwydd natur yr anabledd – er enghraifft, crydcymalau yn y dwylo, arddyrnau neu ysgwyddau, sy'n gwneud defnyddio llygoden neu fysell yn boenus i'r cwsmer. Mae cynnyrch ar gael ar y farchnad a all helpu, ond efallai na fydd y rhain yn addas i bob cwsmer sydd â'r anableddau hyn, fyddai'n gadael rhai fyddai'n dal i'w chael yn anodd. Mae'n debyg y byddai'r cwsmeriaid hyn yn cael problemau tebyg wrth ddefnyddio beiro i lenwi ffurflen bapur.

O safbwynt technegol, ychydig iawn allwn ni ei wneud pan fydd y brif broblem yn ymwneud ag offer y defnyddiwr anabl ei hun. Yma, efallai mai'r ateb fyddai gwneud trefniadau eraill i'r cwsmer anabl gyflwyno gwybodaeth ar-lein – naill ai trwy gyfrifiadur ffrind neu aelod o'r teulu (gyda'r ffrind neu aelod o'r teulu yn rhoi'r manylion i mewn, os nad yw'r cyfrifiadur wedi ei osod i'r cwsmer anabl ei ddefnyddio). Gallai'r un ystod o atebion a amlinellir ym Mhara 13 fod yn berthnasol i gwsmeriaid anabl nad oes ganddynt gyfrifiadur na mynediad rhwydd at un.

Dyluniwyd gwefan y Comisiwn Elusennau i gydymffurfio â W3C Double AA. Mae'r wefan yn cael ei gwella yn sylweddol, mewn cyfres o haenau, gyda phob fersiwn newydd a ryddheir yn cael ei dylunio i gydymffurfio â W3C Double AA, ac wedi ei ysgrifennu i fod yn hawdd ei ddefnyddio a'i ddeall. Bu'r Comisiwn Elusennau yn gweithio gydag Abilitynet i gynhyrchu cyfres o gyfeirlyfrau am wneud addasiadau i osodiadau ar gyfrifiaduron a bysellau y gellir eu defnyddio yn hytrach na llygoden a byddwn yn edrych ar ddichonolrwydd cynhyrchu'r rhain ar gyfer cynulleidfa allanol.

Rydym yn meddwl y bydd y nifer o gwsmeriaid gydag anabledd a fydd yn rhwystr iddynt gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein yn isel iawn. Bydd eu helusen bob amser yn cynnwys mwy nag un unigolyn, gall un ohonynt fod angen cefnogaeth ychwanegol neu wahanol, ond ni fydd y gweddill. Er hynny, dylai'r trefniadau sy'n cael eu gwneud i wneud i'r holl wasanaethau gydymffurfio â W3C Double AA alluogi mynediad ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid anabl.

Mae nifer o gyrff hefyd, llawer ohonynt yn elusennau, sy'n darparu cyngor arbenigol a chefnogaeth i ddefnyddwyr anabl.

16. Oedran

Mae rhai hŷn yn llai tebygol o fod yn defnyddio'r rhyngrwyd tra bod 10% o rai 16 – 24 oed heb fod ar-lein mae'r ffigwr yn codi i 50% i rai 65-74 mlwydd oed[7]. Dengys data'r Comisiwn Elusennau bod ychydig dros 20% o ymddiriedolwyr dros 70 oed.

Mae rhai cwsmeriaid hŷn wedi codi pryderon am fynediad at dechnoleg a diffyg sgiliau cyfrifiadurol neu ddiffyg cynefindra gyda'r Rhyngrwyd. Mae eraill yn gweld y rhyngrwyd fel ffordd o gynyddu eu gallu i gymryd rhan.

Mae nifer o atebion ar gael i'r defnyddiwr hŷn nad yw ar-lein. Yn yr un modd â materion mynediad, mae natur gyfweithiol ymddiriedolaeth a gwaith elusennol yn helpu o ran y gellid gofyn i gydweithiwr lenwi ffurflen ar-lein neu ffurflen flynyddol (yn yr un modd ag y gofynnir iddynt lenwi ffurflen bapur yn awr).

Yn ychwanegol at y ffynonellau help cyffredinol sydd ar gael sy'n cael eu hamlygu uchod mae nifer o fentrau wedi eu hanelu yn benodol at ddefnyddwyr hŷn, er enghraifft wythnos y 'Silver Surfers', mae Age UK yn rhedeg wythnosau 'itea and biscuits' ac yn rhoi llawlyfrau copi caled fel 'How to be a silver surfer'. Mae cyrsiau hefyd wedi eu hanelu yn benodol at ddefnyddwyr hŷn.

17. Materion ategol a ddynodwyd

Fel y nodwyd o'r blaen mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn ymwneud â'r effaith ar bobl sydd â nodweddion cyffredin a ddiogelir, ond wrth gynnal yr ymarfer hwn rydym wedi dynodi rhai problemau a all neu na all fod yn gysylltiedig â'r nodweddion hynny a ddiogelir. Y rhain yw perchenogaeth cyfrifiadur a diffyg sgiliau a hyder.

Yn amlwg mae'n amhosibl cael mynediad at wasanaeth ar-lein heb fynediad at gyfrifiadur y mae unigolyn yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Ond, nid yw mynediad yn golygu perchenogaeth ac nid yw'n angenrheidiol prynu offer. Mae'r atebion gorau ar gyfer y grŵp hwn yn y ffynonellau cyffredinol yn yr adran help.

7 Manifesto for a Networked Nation

Gall ymddiriedolwr arall, ffrind, neu deulu fedru darparu mynediad. Gall llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, ysgolion a chanolfannau UKOnline gynnig mannau eraill sy'n cynnig mynediad; mae help neu hyfforddiant ar gael yn aml hefyd.

18.Cwestiynau allweddol

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar ein cynigion ar gyfer gwasanaethau ar-lein ond mae pum cwestiwn yn y ddogfen y byddem yn gwirioneddol werthfawrogi eich mewnbwn ar eu cyfer.

- A ydym ni wedi dynodi effeithiau gweithio ar-lein ar ein cwsmeriaid yn gywir, naill ai yn bositif neu'n negyddol?
- A oes unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi'n benodol o ganlyniad i roi gwasanaethau ar-lein, a fyddai yn ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl i'r cwsmeriaid dan sylw gael mynediad at wasanaethau?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i'n helpu i asesu graddfa neu arwyddocâd yr effaith ar y grwpiau hyn o bobl?
- Sut gall y risgiau yn ymwneud â'r effeithiau hyn gael eu lleihau?
- A oes ffactorau lliniarol eraill nad ydym wedi eu dynodi?

19. Sut, ble a phryd i anfon sylwadau

Mae croeso i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad hwn a byddem yn gwerthfawrogi pe gallech anfon eich ymateb trwy e-bost gyda'r testun, 'Ymgynghoriad Gwasanaethau Ar-lein'.

Byddai o help hefyd os gallech roi'r wybodaeth safonol ganlynol i ni yn y drefn y gofynnir amdanynt fel rhan o'r cyflwyniad i'ch ymateb. Bydd hyn yn caniatáu i ni reoli'r ymatebion a defnyddio'r wybodaeth yn fwy effeithiol, yn ogystal â'n helpu i roi gwybodaeth i chi am unrhyw gynnydd:

- Enw'r Sefydliad/Elusen (os yn berthnasol)
- Rhif yr elusen (os yn berthnasol)
- Enw cyswllt
- Safle yn y sefydliad (os yn berthnasol)
- Rhif cyswllt
- Cyfeiriad cyswllt
- E-bost cyswllt
- Datganiad Cyfrinachedd (os yn berthnasol – gweler yr adrannau canlynol)
- Ymateb i'r ymgynghoriad /atebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

12 wythnos yw'r cyfnod ymgynghori. Byddwn yn derbyn ymatebion hyd at 29 Hydref.

Pan fydd yn addas, rydym yn eich annog i ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich ymateb. Os ydych yn grŵp cynrychioliadol, rhowch grynodeb o'r bobl a'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli fel rhan o'ch ymateb.

20. Sut y byddwn yn trin y wybodaeth a roddir

Gall yr holl wybodaeth sydd yn yr ymatebion (gan gynnwys gwybodaeth bersonol) gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, a nodwyd yn bennaf yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych am i wybodaeth a roddir fel ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw yn gyfrinachol, ni fydd yn bosibl gwneud hynny oni bai ei bod yn gyson â'n hymrwymiadau cyfreithiol. Mae Cod Ymarfer statudol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn yn nodi sut y dylid trin gwybodaeth gyfrinachol. Ni allwn roi sicrwydd y bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw yn gyfrinachol ond fe fyddwn yn ystyried unrhyw gyflwyniadau a wneir gennych chi.

Os byddwch yn gwrthwynebu i unrhyw wybodaeth (gan gynnwys eich manylion personol) yr ydych yn ei rhoi fel ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chyhoeddi, dywedwch hynny. Byddai o gymorth i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gael eu cefnogi ag esboniad pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yn gyfrinachol fel y gellir gwneud penderfyniad a yw hyn yn sail ar gyfer peidio â chyhoeddi gwybodaeth o'r fath.

21. Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori?

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, bydd y Comisiwn Elusennau yn ystyried yr ymatebion ac yn cyrraedd penderfyniad o ran sut i weithredu'r canfyddiadau orau i wella ein cynnig ar-lein. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau a'r fewnrwyd, ac ar fformatau gwahanol os gofynnir amdanynt. Mae eich sylwadau yn bwysig i ni oherwydd ein pwyslais cynyddol ar ein cwsmeriaid allanol.

22. Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn anfonwch e-bost atom.

ATODIAD A. DEDDFWRIAETH GYDRADDOLDEB BERTHNASOL

Diben yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yw sicrhau bod gweithredu'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad yr Arglwydd Carter ar Wasanaethau Ar-lein HMRC yn cyrraedd yr ymrwymiadau statudol a roddir ar gyrff cyhoeddus y Deyrnas Unedig i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle. Y Ddeddfwriaeth Gydraddoldeb berthnasol yw:

- Adran 71 o Ddeddf (Ddiwygiedig) Cysylltiadau Hiliol 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel eu haddaswyd gan y Gorchymyn Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2006)
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006

Yn ychwanegol mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn hefyd yn helpu i ddangos bod y Comisiwn Elusennau yn bodloni darpariaethau:

- Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Oedran 2006 a Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) (Gogledd Iwerddon) 2006
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003 a Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) (Gogledd Iwerddon) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Adlinio Rhyw) 1999
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006.

Ar ryw, rhaid i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng dynion a menywod yn gyffredinol; a
- ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ar ddynion a menywod yn gyffredinol (gan gynnwys rhai trawsrywiol).

Ar hil, rhaid i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol;
- ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon rhwng gwahanol grwpiau hiliol; a
- hyrwyddo cysylltiadau da i bobl o wahanol grwpiau hiliol.

Ar anabledd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi ystyriaeth ddyledus i ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'n dyletswyddau allweddol dan y Ddeddf. Yn arbennig:

- hyrwyddo cydraddoldeb cyfle i bobl anabl gan gymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl hyd yn oed pan fydd hynny'n gofyn am driniaeth fwy ffafriol;
- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd;
- annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus gan bobl anabl;
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl, a
- dileu aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Siarteri Ewropeaidd

Daeth y Siarter Ewropeaidd ar Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol i rym ar 1 Gorffennaf 2001, ac mae'n rhwymol ar y Deyrnas Unedig (a'r aelod wladwriaethau eraill). Mae'n ymdrin ag ieithoedd a ddefnyddiwyd yn draddodiadol o fewn tiriogaeth gwladwriaeth gan breswylwyr y wladwriaeth sy'n ffurfio grŵp llai na gweddill poblogaeth y wladwriaeth (ond nid ieithoedd lleiafrifoedd ethnig sy'n codi oherwydd ymfudo diweddar, tafodieithoedd o'r iaith swyddogol neu iaith arwyddion). Nod y Siarter yw diogelu a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol Ewrop, trwy alluogi siaradwyr yr ieithoedd hynny i gyfathrebu gydag awdurdodau cyhoeddus "cyn belled ag y mae hyn yn rhesymol o bosibl" yn eu dewis iaith (ar gyfer y Deyrnas Unedig, mae hyn yn golygu Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Gymraeg). Ond, mae Adroddiad Esboniadol Cyngor Ewrop ar y Siarter yn nodi nad yw'r Siarter yn sefydlu unrhyw hawliau unigol neu ar y cyd i siaradwyr yr ieithoedd hynny - mewn geiriau eraill, nid oes dim yn y Siarter sy'n rhoi hawl i'r unigolion fynnu bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyfathrebu, na sicrhau bod dogfennau swyddogol, ffurflenni neu daflenni ar gael, na darparu gwasanaethau ar-lein, neu ymwneud mewn modd arall ag iaith leiafrifol o'r fath.